

# Cyngor Cyfreithiol Canllaw i Etholwyr

Hydref 2019



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
[www.cynulliad.cymru/ymchwil](http://www.cynulliad.cymru/ymchwil)

Gellir cael rhagor o gopiâu o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Ymchwil y Senedd**  
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**Tŷ Hywel**  
**Bae Caerdydd**  
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6324**  
E-bost: [Lucy.Hodson@Cynulliad.Cymru](mailto:Lucy.Hodson@Cynulliad.Cymru)  
Twitter: [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)  
Blog: [SeneddYmchwil.blog](http://SeneddYmchwil.blog)

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
**Ymchwil y Senedd**

# Cyngor Cyfreithiol Canllaw i Etholwyr

Hydref 2019

**Awduron:**  
Lucy Hodson

**Trosolwg o'r papur:**  
Mae'r daflen ffeithiau etholaeth hon yn darparu gwybodaeth am wahanol ffynonellau o gyngor cyfreithiol ar gyfer etholwyr sy'n chwilio am help neu gymorth gydag amrywiaeth o faterion cyfreithiol.

**Cydnabyddiaeth:** Mae'r papur hwn wedi defnyddio ffynonellau a geir ym mhapur briffio Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin: Cymorth cyfreithiol: ble i fynd a sut i dalu (2018)



## Cynnwys

<b>Rhagarweiniad .....</b>	<b>1</b>
<b>Hunan-gynrychiolaeth .....</b>	<b>2</b>
<b>Cael hyd i gyfreithiwr .....</b>	<b>3</b>
<b>Cymorth cyfreithiol.....</b>	<b>4</b>
<b>Pro bono.....</b>	<b>5</b>
LawWorks .....	5
Canolfan Cyfraith SpeakEasy .....	5
Advocate .....	6
Uned 'Bar Pro Bono' .....	6
<b>Ffynonellau eraill o gyngor.....</b>	<b>7</b>
Cyngor ar Bopeth .....	7
Undebau Llafur.....	7
Yswiriant ac Aelodaeth .....	7

## **Ffynonellau penodol o gyngor .....**

ACAS (Y Gwasanaeth Cyngori, Cymodi a Chyflafareddu) .....	8
Gweithredu yn erbyn Damweiniau Meddygol .....	8
Advicenow .....	8
Age Cymru .....	9
Canolfan Gyfreithiol Plant Coram .....	9
Gwasanaeth Cyfreithiol i Bobl Anabl.....	9
Y Gwasanaeth Cyngori a Chymorth Cydraddoldeb.....	10
Y Grŵp Hawliau Teulu.....	10
Inquest.....	10
Mind .....	11
Y Llinell Ddyled Genedlaethol .....	11
Hawliau menywod.....	11
Shelter Cymru .....	12

## Rhagarweiniad

Mae'r daflen ffeithiau etholaeth hon yn darparu gwybodaeth am wahanol ffynonellau o gyngor cyfreithiol ar gyfer etholwyr sy'n chwilio am help neu gymorth gydag amrywiaeth o faterion cyfreithiol.

## Hunan-gynrychiolaeth

Ar gyfer rhai materion cyfreithiol, mae'n bosibl y gallwch chi gynrychioli ein hun mewn llys; gelwir rhywun sy'n gwneud hyn yn "ymgyfreithiwr drosto'i hun". Gellir cael rhagor o wybodaeth am hyn ar dudalen GOV.UK, [Cynrychioli'ch hun mewn llys](#). Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd yn rhoi cymorth i bobl sy'n bwriadu cynrychioli eu hunain mewn llys trwy eu strategaeth [Litigant in Person Support Strategy \(LiPS\)](#). Hefyd, ar wefan [AdviceNow](#), mae gwybodaeth am [fynd i lys neu dribiwnlys heb gymorth cyfreithiwr](#).

## Cael hyd i gyfreithiwr

Bydd angen cymorth cyfreithiwr preifat arnoch i ymdrin â rhai problemau cyfreithiol. Bydd gwahanol gyfreithwyr yn arbenigo mewn gwahanol feysydd cyfreithiol, fel trosedd, addysg neu gyfraith teulu, felly mae'n bwysig eich bod yn cael hyd i gyfreithiwr sy'n arbenigo yn y maes priodol.

Bydd gan y rhan fwyaf o lyfrgelloedd gyfeirlyfr cyfreithwyr; neu ewch i wefan Cymdeithas y Gyfraith lle gallwch chwilio am gyfreithiwr lleol neu gyfreithiwr sy'n arbenigo mewn maes penodol.

[lawsociety.org.uk/find-a-solicitor](https://lawsociety.org.uk/find-a-solicitor)

Mae llawer o gyfreithwyr yn cytuno i beidio â chodi tâl am yr apwyntiad cyntaf.

### Manylion cyswllt:

**Rhif ffôn:** 020 7320 5650

**Gwefan:** [lawsociety.org.uk](https://lawsociety.org.uk)

## Cymorth cyfreithiol

Gall cymorth cyfreithiol eich helpu i dalu am gyngor cyfreithiol, cyfryngu neu gynrychiolaeth mewn llys os na allwch dalu'r costau'ch hun. Gallai hyn gynnwys help gyda phroblemau'n ymwneud â thai, dyledion, gwaith, budd-daliadau neu addysg.

Cewch gymorth cyfreithiol hefyd os cewch eich cyhuddo o drosedd. Dylai cyfreithiwr neu fargyfreithiwr person a gyhuddwyd allu cadarnhau a allant gael cymorth cyfreithiol troseddol.

Mae cymorth cyfreithiol yn dibynnu ar nifer o bethau gan gynnwys eich amgylchiadau ariannol (megis faint rydych yn ennill a faint o gynilion sydd gennych), a'r math o gymorth cyfreithiol rydych yn chwilio amdano. Nid yw cymorth cyfreithiol ar gael ar gyfer pob math o broblem.

Ar wefan Gov.uk, gallwch gyfrifo ar-lein a ydych yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol ar gyfer problemau nad ydynt yn rhai troseddol.

**Gwefan:** [www.gov.uk/check-legal-aid](http://www.gov.uk/check-legal-aid)

**Gallwch hefyd chwilio am gynghorwyr cymorth cyfreithiol yma:** [find-legal-advice.justice.gov.uk](http://find-legal-advice.justice.gov.uk)

## Pro bono

Pro bono yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio cymorth cyfreithiol di-dâl i'r rhai na allant fforddio talu am wasanaeth cyfreithiol ac nad ydynt yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol. Os nad ydych yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol, mae rhai o'r asiantaethau yn gweithio gyda chyfreithwyr pro bono a all, o bosibl, eich helpu gyda'ch achos.

### LawWorks

Elusen yw LawWorks a'i nod yw rhoi cyngor cyfreithiol di-dâl i unigolion a grwpiau cymunedol nad ydynt yn gallu talu amdano ac nad ydynt yn gallu hawlio cymorth cyfreithiol. Mae'n cynnig clinigau di-dâl lle cewch gyngor cyfreithiol di-dâl, cyfryngu di-dâl a chymorth di-dâl gyda gwaith achos. Yn y clinigau, cewch gyngor cychwynol di-dâl, ac mae'n canolbwyntio'n benodol ar broblemau'n ymwneud â materion lles cymdeithasol, cyfraith cyflogaeth, tai a phroblemau defnyddwyr.

I gael hyd i'ch clinig LawWorks agosaf, ewch i: [www.lawworks.org.uk](http://www.lawworks.org.uk)

### Canolfan Cyfraith SpeakEasy

Mae Canolfan Gyfraith SpeakEasy yn cynnig cyngor cyfreithiol diduedd am ddim, gan fynd i'r afael â materion o ran lles cymdeithasol sy'n cynnwys budd-daliadau lles, dyled, tai a chyfraith gyflogaeth.

Mae'r Canolfan yn cynnig clinigau bob wythnos lle gallwch alw heibio i gael cyngor diduedd a chyfrinachol yn rhad ac am ddim. Nid oes angen gwneud apwyntiad, ac mae'r clinigau yn gweithredu ar sail y cyntaf i'r felin. Caiff y clinigau eu staffio gan gyfreithwyr proffesiynol a chyfreithwyr dan hyfforddiant.

#### Manylion cyswllt:

**Cyfeiriad:** 166 Richmond Road, Cardiff, CF24 3BX

**Rhif ffôn:** 029 2045 3111

**E-bost:** [info@speakeasy.cymru](mailto:info@speakeasy.cymru)

**Gwefan:** <https://www.speakeasy.cymru/>

## Advocate

Elusen yw **Advocate** sy'n dod o hyd i gymorth cyfreithiol am ddim gan fargyfreithwyr.

### Manylion cyswllt:

**Rhif ffôn:** 020 7092 3960

(Mae'r llinellau ar agor rhwng 10:15 a 12:45 ar ddydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener)

**E-bost:** [Enquiries@weareadvocate.org.uk](mailto:Enquiries@weareadvocate.org.uk)

## Uned 'Bar Pro Bono'

Mae **Uned 'Bar Pro Bono'** ynparu bargyfreithwyr sy'n fodlon ymgymryd â gwaith pro bono gyda'r rhai sydd angen eu help. Ni all unigolion wneud cais ond gallwch ofyn am gael eich cyfeirio gan unrhyw un o'r isod:

- [Cyngor ar Bopeth](#)
- [Canolfan y Gyfraith](#)
- [Eich AS/AC lleol](#)

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: [www.barprobono.org.uk](http://www.barprobono.org.uk)

## Ffynonellau eraill o gyngor

### Cyngor ar Bopeth

Gall Cyngor ar Bopeth helpu pobl i ddatrys problemau'n ymwneud â dyledion, budd-daliadau, tai, y gyfraith, gwahaniaethu, mewnfudo, materion defnyddwyr a phroblemau eraill. Maent yn rhoi cyngor di-dâl wyneb yn wyneb, dros y ffôn a'r e-bost. Mae'r rhan fwyaf o'r canolfannau yn cynnig ymweld â chi yn eich cartref neu'n cynnig cyngor dros e-bost. Ar eu gwefan, mae adran lle gallwch gael hyd i gyfeiriad a manylion cyswllt eich swyddfa leol:

[citizensadvice.org.uk/about-us/how-we-provide-advice/advice](http://citizensadvice.org.uk/about-us/how-we-provide-advice/advice)

Mae llawer o daflenni gwybodaeth ar gael ar wefan Cyngor ar Bopeth ynghyd â chwestiynau cyffredin yn ymwneud ag amrywiaeth eang o bynciau.

### Manylion cyswllt:

**Rhif ffôn:** 03444 77 20 20

**Gwefan:** [www.citizensadvice.org.uk/cymru](http://www.citizensadvice.org.uk/cymru)

## Undebau Llafur

Mae undebau llafur yn aml yn darparu cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol am ddim i'w haelodau nad yw'n gyfyngedig i faterion sy'n ymwneud â gwaith. Yn y lle cyntaf, cysylltwch â'ch cynrychiolydd lleol i gael rhagor o wybodaeth. Fel arall, mae gan rai undebau llafur linellau cymorth y gallech eu ffonio am gyngor.

## Yswiriant ac Aelodaeth

Mae llawer o bolisiau yswiriant yn cynnig yswiriant treuliau cyfreithiol fel elfen ychwanegol a all ymdrin ag anghydfodau tra amrywiol. Mae'n bosibl hefyd y bydd cyngor cyfreithiol a llinellau cymorth dros y ffôn i bobl sy'n tanysgrifio i gylchgronau fel *Which*. Ffynonellau penodol o gyngor

## Ffynonellau penodol o gyngor

Hefyd, mae llawer o elusennau sy'n cynnig cyngor cyfreithiol i grwpiau penodol neu i'r rhai sydd â phroblemau penodol.

### ACAS (Y Gwasanaeth Cyngori, Cymodi a Chyflafareddu)

Mae ACAS yn darparu gwybodaeth a chyngor diduedd am ddim i gyflogwyr a chyflogaethion ar bob agwedd ar gysylltiadau yn y gweithle a chyfraith gyflogaeth.

Mae gwefan ACAS yn cynnwys adran [cyngor ac arweiniad](#), sy'n darparu gwybodaeth am ystod eang o faterion cyflogaeth, o ysgrifennu contract cyflogaeth i hawliau o ran gwyliau, yn ogystal â'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf ynghylch cyflogaeth.

#### Manylion cyswllt:

**Rhif ffôn:** 0300 123 1100. (Llun-Gwener 8am-6pm)

**Gwefan:** [www.acas.org.uk/](http://www.acas.org.uk/)

### Gweithredu yn erbyn Damweiniau Meddygol

Gweithredu yn erbyn Damweiniau Meddygol (AvMA) yw'r elusen genedlaethol ar gyfer diogelwch a chyfiawnder cleifion. Ar eu gwefan mae adran [Cymorth a Chyngor](#) sy'n darparu opsiynau os ydych chi neu aelod o'r teulu wedi dioddef esgeulustod meddygol. Mae eu cyngor yn ddi-dâl ac yn gyfrinachol.

#### Manylion cyswllt:

**Llinell gymorth ffôn:** 0845 123 2352 (Llun-Gwener 10am - 3.30pm)

**Gwefan:** [www.avma.org.uk](http://www.avma.org.uk)

### Advicenow

Gwefan annibynnol, nid er elw, yw Advicenow sy'n cael ei rhedeg gan yr elusen Y Gyfraith am Oes: y Sefydliad ar gyfer Addysg Gyfreithiol Gyhoeddus. Ei nod yw rhoi addysg ac adnoddau cyfreithiol i'r cyhoedd. Mae'r wefan yn cynnwys canllawiau a thempled llythyrau ar amryw bynciau gan gynnwys budd-daliadau, ysgariad a gwahanu, tai a mewnfudo. Mae hefyd yn rhoi cyngor ar sut i osgoi mynd i lys yn y lle cyntaf a chyfeiriadur o sefydliadau defnyddiol.

**Gwefan:** [www.advicenow.org.uk](http://www.advicenow.org.uk)

## Age Cymru

Age Cymru yw'r elusen genedlaethol ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru. Mae'n rhoi cyngor a gwybodaeth am ystod o faterion sy'n berthnasol i bobl hŷn drwy ei gwefan a'i llinell gyngor.

**Ffôn:** 029 2043 1555

**Llinell gyngor:** 08000 223 444

**E-bost:** [advice@agecymru.org.uk](mailto:advice@agecymru.org.uk)

### Canolfan Gyfreithiol Plant Coram

Elusen gofrestredig yw Canolfan Gyfreithiol Plant Coram (CCLC) sy'n hyrwyddo hawliau plant ledled y DU ac yn rhyngwladol. Mae'n cynnig cynrychiolaeth gyfreithiol, gwybodaeth a chyngor cyfreithiol am ddim i blant, pobl ifanc, eu teuluoedd a'u gofalwyr ledled y DU. Mae'n cynnig cyngor ar amryw faterion, gan gynnwys mewnfudo a lloches, addysg a gwasanaethau cymdeithasol ac mae eu gwefan yn cynnwys taflenni ffeithiau gwybodaeth gyfreithiol a ysgrifennwyd yn arbennig ar gyfer plant a phobl ifanc.

#### Manylion cyswllt:

**E-bost:** [info@coramclc.org.uk](mailto:info@coramclc.org.uk)

**Rhif ffôn:** 01206 714 650 (ymholiadau cyffredinol yn unig, ni roddir cyngor cyfreithiol ar y llinell hon)

**Gwefan:** [www.childrenslegalcentre.com](http://www.childrenslegalcentre.com)

### Gwasanaeth Cyfreithiol i Bobl Anabl

Pobl anabl sy'n rhedeg y gwasanaeth hwn ac maent yn rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl anabl a phobl fyddar.

Gallant roi cyngor ynghylch y meysydd a ganlyn:

- Cyfraith Gofal yn y Gymuned
- Cyfraith cyflogaeth a gwahaniaethu

#### Manylion cyswllt:

**Ffôn:** 020 7791 9800

**Ffôn testun:** 020 7791 9801



**E-bost:** [advice@dls.org.uk](mailto:advice@dls.org.uk).

**Gwefan:** [www.dls.org.uk](http://www.dls.org.uk).

## Y Gwasanaeth Cyngori a Chymorth Cydraddoldeb

Mae'r Gwasanaeth Cyngori a Chymorth Cydraddoldeb (EASS) yn cynnig cyngor a chymorth i unigolion sy'n ymwneud â chydaddoldeb a hawliau dynol. Nid yw'n darparu cyngor cyfreithiol, ond yn hytrach mae'n ceisio helpu cleientiaid i ddatrys pethau heb orfod dechrau achos cyfreithiol. Mae gan yr EASS linell gymorth ac amrywiaeth o adnoddau ar-lein gan gynnwys taflenni ffeithiau a thempledi o lythyrau i wneud cwynion o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

### Manylion cyswllt:

**Ffôn am ddim:** 0808 800 0082

**Ffôn testun:** 0808 800 0084

**Gwefan:** [www.equalityadvisoryservice.com](http://www.equalityadvisoryservice.com).

## Y Grŵp Hawliau Teulu

Elusen yw'r **Grŵp Hawliau Teulu (GHT)** sy'n gweithio gyda rhieni y mae eu plant mewn angen neu mewn perygl, neu sydd â phlant yn y system ofal, a chydag aelodau o'r teulu ehangach. Mae gan GHT gyfres o **daflenni cyngor perthnasol** a **chwestiynau cyffredin**. Hefyd, mae'n cynnal **grwpiau cymorth i deuluoedd** a **fforymau teuluol**. Mae GHT hefyd yn darparu rhestr o **daflenni cyngor i dadau**.

### Manylion cyswllt:

**Ffôn am ddim:** 0808 801 0366

**Gwefan:** <https://www.frg.org.uk/>

## Inquest

Elusen gofrestrdig yw Inquest sy'n cynnig cyngor a chymorth annibynnol, di-dâl i bobl yn dilyn marwolaeth mewn gofal yn y wladwriaeth, y ddalfa neu dan gadwad yng Nghymru neu Loegr. Mae hefyd yn cynnig cymorth i deuluoedd trwy gydol proses y cwêst. Mae Inquest hefyd yn cynhyrchu **The Inquest Handbook: A Guide for Bereaved Families, Friends and Survivors** y gellir ei lawrlwytho am ddim neu gallwch ofyn am gopi print drwy fynd i'r wefan.

### Manylion cyswllt:

**Rhif ffôn:** 020 7263 1111 (pwyswch opsiwn 1)

**Website:** [www.inquest.org.uk](http://www.inquest.org.uk)

## Mind

Elusen gofrestrdig yw Mind ac mae'n rhoi cyngor a chymorth i rymuso unrhyw un sydd â phroblem iechyd meddwl.

Mae gan Mind dîm cyfreithiol arbenigol sy'n gallu rhoi gwybodaeth a chynghor cyffredinol ynghylch y gyfraith yn ymwneud ag iechyd meddwl, gan gynnwys:

- iechyd meddwl
- gallu meddyliol
- gofal yn y gymuned
- hawliau dynol a gwahaniaethu/cydraddoldeb yn ymwneud â materion iechyd meddwl

### Manylion cyswllt:

**Ffôn:** 0300 466 6463

**Gwefan:** [www.mind.org.uk/information-support/legal-rights/](http://www.mind.org.uk/information-support/legal-rights/)

## Y Llinell Ddyled Genedlaethol

Mae'r Llinell Ddyled Genedlaethol yn rhoi cyngor a gwybodaeth am broblemau dyled dros y ffôn neu drwy e-bost. Mae'r llinell gymorth yn rhoi cyngor cyfrinachol ac annibynnol ynghylch sut i ymdopi â phroblemau'n ymwneud â dyled. Hefyd, gallwch gael pecynnau a thafenni gwybodaeth yn ymwneud â phroblemau penodol oddi ar wefan y Llinell Ddyled Genedlaethol:

### Manylion cyswllt:

**Ffôn:** 0808 808 4000

**E-bost:** [www.nationaldebtline.co.uk/england\\_wales](http://www.nationaldebtline.co.uk/england_wales)

**Gwefan:** [www.nationaldebtline.co.uk](http://www.nationaldebtline.co.uk)

## Hawliau menywod

Elusen i fenywod sy'n darparu cyngor cyfreithiol cyfrinachol am ddim i fenywod gan gyfreithwyr a bargyfreithwyr sy'n arbenigo yn y maes. Mae'r wefan yn cynnwys canllawiau cyfreithiol a llawlyfrau mewn gwahanol feysydd o'r gyfraith.

**Manylion cyswllt:**

**Gwefan:** [rightsofwomen.org.uk](https://rightsofwomen.org.uk).

**Llinellau cyngor dros y ffôn:**

- Cyngor cyfreithiol troseddol:  
**Ffôn:** 020 7251 8887
- Cyngor cyfraith teulu  
**Ffôn:** 020 7251 6577
- Cyngor cyfraith mewnfudo a lloches  
**Ffôn:** 020 7490 7689

## Shelter Cymru

Mae Shelter Cymru yn arbenigo mewn rhoi gwybodaeth a gwasanaeth eirioli i bobl sydd angen cartrefi. Mae Shelter Cymru yn cynnal cymorthfeydd tai lleol. Sesiynau galw heibio yw rhai ohonynt ond mae angen trefnu apwyntiad i eraill. Mae Shelter hefyd yn rhoi cyngor arbenigol di-dâl dros y ffôn.

Gallwch ddefnyddio gwefan Shelter hefyd i chwilio am wasanaethau sy'n rhoi cyngor ynghylch tai, dyledion, budd-daliadau ac iechyd.

**Manylion cyswllt:**

**Ffôn:** 0345 075 5005

**Gwefan:** <https://sheltercymru.org.uk/>